# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llys Cyncoed**

**127 Heol Cyncoed**
**Caerdydd**
**CF23 6AF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

9 a 10 Awst 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Llys Cyncoed

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br><br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Care UK Community Partnerships Ltd ac WELL Cardiff Opco Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 99 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae Llys Cyncoed yn cynnig awyrgylch croesawgar, cefnogol, ac mae'r bobl yn mwynhau byw yno. Mae dogfennau ar waith ar gyfer deall beth yw'r ffordd orau o gefnogi pobl ac mae'n dangos bod pob gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel yn ôl yr angen. Darperir ar gyfer dewisiadau unigol. Mae gweithwyr gofal yn barchus ac yn garedig, ac mae perthnasoedd gwaith da yn cael eu datblygu. Gall y bobl ddewis ble i fod, a faint o weithgareddau sydd wedi'u trefnu y dymunant fod yn rhan ohonynt. Gwelwyd bod y bobl yn hamddenol a dywedon nhw wrthym "*Os ydych chi'n byw mewn cartref gofal, does unman gwell y gallwch chi fod*!" Mae'r bobl yn hoffi'r bwyd cartref yn arbennig.

Mae'r cartref wedi'i adeiladu'n bwrpasol gyda lle a chyfarpar digonol i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r darparwr wedi gwella sut mae pob rhan o'r cartref wedi'i addurno ac wedi nodi bod buddsoddiad ariannol pellach ar gael i adnewyddu'r ardaloedd lle mae angen hyn. Mae mynediad i'r ardd gefn yn achosi problemau i rai o'r bobl, ond mae darparwr y gwasanaeth yn ystyried sut y gellir goresgyn hyn, ac mae un ardal falconi ar y llawr cyntaf. Mae systemau da iawn ar waith i fonitro, gwasanaethu a chynnal a chadw pob agwedd ar yr amgylchedd a chyfarpar.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n llyfn. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio ansawdd gofal a diogelwch y bobl. Mae rheolwr ymroddedig yn cefnogi'r tîm o staff profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu gofal a'i fonitro'n barhaus.

## Llesiant

Mae’r bobl yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau ac maent yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt. Cynhelir asesiadau cyn-derbyn i sicrhau bod y bobl yn gallu mynegi eu hanghenion cymorth, a sut yr hoffent gael y cymorth hwn. Mae cynlluniau gofal yn amlinellu'r cymorth angenrheidiol y cytunwyd arno. Mae’r bobl yn cael gwybodaeth am y gwasanaeth mewn dogfennau a ddarperir yn Gymraeg neu Saesneg. Mae cynlluniau gweithgareddau a bwydlenni dyddiol ar gael i helpu'r bobl i wneud dewisiadau, ond gwelsom fod staff yn ymgynghori â'r bobl er mwyn unigoli'r gweithgareddau hyn a'r ddarpariaeth fwyd. Ar y cyfan, mae'r bobl yn hyderus y gallant leisio materion drwy'r staff, cyfarfodydd, ac adolygiadau o gynlluniau gofal, ac y bydd sylw’n cael ei roi iddynt. Mae systemau ar waith yn y gwasanaeth i fesur safbwyntiau’r bobl a rhanddeiliaid ynglŷn ag ansawdd y gwasanaeth, ac mae'n ymateb i'r awgrymiadau a wneir. Defnyddir gwasanaethau eirioli i helpu'r bobl i wneud penderfyniadau os yw person neu gynrychiolydd eu teulu yn cael hyn yn anodd.

Mae mesurau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel a'u hamddiffyn rhag niwed. Mae'r amgylchedd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda gyda digon o le. Mae'r cyfarpar mewn cyflwr da, yn cael ei wasanaethu a'i brofi'n rheolaidd, ac yn addas ar gyfer anghenion y bobl. Mae'r darparwr wedi nodi meysydd i'w gwella ar gyfer yr amgylchedd ac mae ganddo gynllun ar waith i adnewyddu ac amnewid eitemau, ond nid yw hyn yn effeithio ar ddiogelwch y bobl. Cynhelir gwiriadau cefndir o bob aelod o staff er mwyn sicrhau eu bod nhw'n addas i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed, ac maent yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol hefyd. Mae rheolwyr yn monitro ansawdd y ddarpariaeth gofal ac yn archwilio dogfennau a systemau, megis meddyginiaeth, yn rheolaidd, fel y gellir mynd i'r afael â risgiau. Mae'r gwasanaeth yn rhagweithiol o ran cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol i gynorthwyo'r bobl sy’n derbyn gofal sydd y tu allan i gymhwysedd y gwasanaeth. Rhoddir hyfforddiant cadarn i staff, a dywedon nhw wrthym eu bod yn teimlo’n hyderus yn eu rôl a bod ganddynt y sgiliau i ddarparu’r lefelau o ofal a chymorth sydd eu hangen. Maent hefyd yn ymwybodol o sut i leisio mater diogelu os ydynt yn teimlo bod person mewn perygl o niwed. Mae gan y bobl â diffyg galluedd gynrychiolaeth addas.

Mae'r bobl yn gallu gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gweithgareddau wedi'u trefnu, ac anogaeth gan y gweithwyr gofal, yn rhoi cyfleoedd i'r bobl gymryd rhan mewn pethau sy'n ddiddorol iddynt, fel canu neu deithiau i'r gymuned. Byddai rhai pobl yn hoffi petai’r mynediad i'r ardd yn well ac mae'r darparwr yn ystyried sut y gellir trefnu hyn. Mae'r bobl yn dewis ble maen nhw’n dymuno bod yn y cartref ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i symud o gwmpas yr adeilad. Mae'r bobl a'r dewisiadau a wnânt yn cael eu parchu gan yr holl staff. Mae rhyngweithio cynnes gan y gweithwyr gofal, a chofleidiau a chyffyrddiadau tyner, priodol, yn atgyfnerthu ymdeimlad y bobl yn y gwasanaeth eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ‘pethau bach’ fel arwydd ‘Croeso’ ar ddrws preswylydd newydd, neu pan fo'r rheolwr yn gweithredu ar unwaith i helpu person i gadw'n oer yn ei ystafell yn ystod diwrnod poeth drwy newid y

llenni, yn dangos bod y bobl yn cael eu gwerthfawrogi. Cesglir adborth mwy ffurfiol ar y gwasanaeth mewn amrywiol ffyrdd ac mae'r darparwr yn cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion neu awgrymiadau.

## Gofal a Chymorth

Ymgynghorir â'r bobl ynghylch eu dewisiadau a'u hanghenion am gymorth. Mae cynlluniau personol yn cynnwys dogfennau asesu sy'n cael eu cwblhau gan yr unigolyn neu ei gynrychiolydd. Cadarnhaodd dau berson y gwnaethom siarad â nhw fod rheolwr gofal wedi ymweld â nhw yn eu cartref eu hunain i drafod eu hanghenion; er nad oeddent yn gallu ymweld â'r gwasanaeth i'w weld cyn cael eu derbyn, roedd aelod o'r teulu wedi gallu gwneud hyn. Mae'r wybodaeth a gesglir yn ystod ymweliadau â chartrefi pobl yn llywio'r gwaith o ysgrifennu'r cynllun gofal, y mae pob parti'n cytuno arno. Mae risgiau i'r bobl yn cael eu hasesu, a phan fo unigolion yn dymuno hynny, mae dogfennau'n dangos y gallant fentro'n ofalus, er enghraifft drwy ddewis gwisgo gemwaith er y gallai eu croen fod yn fregus a bod perygl y gallai rwygo'n hawdd. Cynigir y dewis i'r bobl drafod dymuniadau diwedd eu hoes. Gwelwyd cofnodion o adolygiadau rheolaidd o gynlluniau personol, gyda thystiolaeth yr ymgynghorir â'r person neu ei gynrychiolwyr.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae'r cynlluniau personol yn glir ac yn cynhyrchu tasgau ar system electronig sy'n procio gweithwyr gofal fel nad yw gofal yn cael ei esgeuluso. Gwelsom fod y bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt yn gyson, gan gynnwys cymorth i symud eu corff pan fo hyn yn bwysig i gadw'r croen yn iach. Gwelsom hefyd fod y bobl sydd mewn perygl o golli pwysau yn cael mwy o gymorth a monitro er mwyn helpu cynnal pwysau iach. Gwelsom fod y bobl yn cael atgyfeiriadau priodol pan oedd anghenion gofal yn newid, megis yn sgil asesu gallu person i lyncu; ac yna mae'r gweithlu'n dilyn y canllawiau a roddir gan weithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r prosesau rhoi meddyginiaeth yn ddiogel ac mae'r bobl yn cael adolygiadau meddyginiaeth gyda'u gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol yn rheolaidd. Mae meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel ac yn cael ei chadw ar dymheredd priodol fel nad yw effeithiolrwydd y feddyginiaeth yn cael ei beryglu. Mae gan y bobl fynediad at wasanaethau iechyd, er bod rhai'n dewis talu am ofal iechyd preifat megis triniaeth traed. Pan fydd anghenion y bobl yn newid, neu pan fydd digwyddiad fel cwymp, mae cynlluniau personol yn cael eu newid yn unol â hynny i sicrhau bod y cymorth a'r cyfarpar cywir ar waith. Mae gan y bobl â diffyg galluedd gynrychiolaeth berthnasol, weithiau gan eiriolwr annibynnol fel rhan o atgyfeiriadau pan fo angen 'Caniatâd Amddifadu o Ryddid'.

Mae'r bobl yn fodlon ar ansawdd y gofal y maent yn ei dderbyn. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r caredigrwydd y mae'r staff yn ei ddangos, ond hefyd yr hwyl y maent yn ei roi i fywyd bob dydd. Gwelsom ryngweithio gofalgar a chynnes rhwng y staff a'r bobl, a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar hwyliau'r person, a chynigiwyd dewis i'r bobl bob amser. Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael profiad bwyta cadarnhaol ac yn dweud wrthym eu bod yn hoffi'r bwyd. Gwelsom y pennaeth arlwyo yn ymgynghori ag un person i drafod ei hoff fwydydd fel y gellid addasu'r dewis o brydau i weddu i'w flas yn well. Mae'r fwydlen yn gytbwys o ran maeth a gwelsom ddewisiadau eraill yn lle'r opsiynau bwydlen a ddarperir, gyda'r bobl yn mwynhau bwyd cartref. Cynigir amrywiaeth eang o weithgareddau a

gwelsom y bobl yn cymryd rhan os oeddent yn dymuno. Roedd un grŵp o bobl wedi mwynhau taith yn y bws mini i Benarth, ac roedd eraill yn edrych ymlaen at y sesiwn ganu a drefnwyd ar gyfer y prynhawn.

## Yr Amgylchedd

Mae systemau trefnus ar waith i fonitro'r amgylchedd. Mae'r cyfarpar yn cael ei fonitro o ran traul, yn bodloni safonau gofynnol ac yn addas ar gyfer anghenion y bobl. Mae safon yr addurno yn uchel ac yn creu awyrgylch y gellir ymlacio ynddo. Mae arwyddion Cymraeg ar gael ym mhob rhan o'r cartref. Mae'r darparwr wedi nodi meysydd i'w gwella, fel gosod lloriau newydd yn y gegin. Dywedodd y bobl wrthym nad yw padelli'r cawodydd yn eu hystafelloedd ymolchi yn draenio'n dda, a gwelsom dystiolaeth fod y rheolwyr yn archwilio'r rhesymau dros hyn. Mae lifftiau'n cefnogi'r bobl i symud rhwng y lloriau ac maent yn gweithio'n iawn. Mae'r bobl yn mwynhau'r balconïau teras, ond dim ond o dan oruchwyliaeth y mae'r un ar y llawr cyntaf ar gael i'w ddefnyddio, oherwydd bod y darparwr yn ymwybodol y gallai uchder rheilen y balconi beri risg, yn enwedig i bobl nad ydynt efallai'n gallu deall risgiau sy'n ymwneud â chwympo o uchder. Mae'r darparwr yn bwriadu mynd i'r afael â hyn. Mae'r darparwr hefyd yn ystyried tir y cartref a sut i hwyluso mynediad gwell i'r ardd. Byddai hyn yn hyrwyddo llesiant y bobl oherwydd bod rhai wedi dweud wrthym nad yw'r ardd yn hygyrch iddynt ac y byddent yn hoffi gallu cael mynediad iddi.

Mae'r bobl yn hapus ar eu hystafelloedd gwely ac mae ganddynt ddewis o ran maint yr ystafelloedd. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hoffi'r ffaith eu bod wedi gallu dod â'u dodrefn eu hunain pan symudon nhw i mewn. Gwelsom ystafelloedd gwely lle rhoddwyd gwedd bersonol iddynt gydag eitemau sy'n bwysig i'r person, ac yn achos pobl sydd wedi colli rhywfaint o'u cof, roedd blychau arddangos y tu allan i ddrysau ystafelloedd gwely gydag eitemau ynddynt i ddangos hanes a diddordebau person. Mae'r rhain yn darparu pwynt cyfeiriadedd a thrafodaeth.

Mae mesurau atal heintiau  ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae'r staff yn gwisgo offer amddiffynnol priodol fel masgiau. Ar hyn o bryd, er mwyn helpu i atal lledaeniad yr haint COVID-19, mae'n rhaid i'r staff ac ymwelwyr ddangos tystiolaeth eu bod wedi cael canlyniad prawf llif unffordd negyddol cyn cael mynediad. Mae gweithdrefnau hylendid ar waith, a gwelsom fod y cartref yn lân ac yn rhydd rhag arogleuon drwg. Mae gan y cartref dystysgrif Lefel 5 ar gyfer Hylendid Bwyd.

Mae Gwasanaeth Tân De Cymru wedi arolygu'r gwasanaeth ac wedi nodi gwelliannau y mae angen i'r darparwr eu gwneud o ran diogelwch tân. Mae'r darparwr yn blaenoriaethu'r gwelliannau hyn ac yn cydnabod y buddsoddiad sydd ei angen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr ‘Ddatganiad o Ddiben’ a ‘Chanllaw i Ddefnyddiwr y Gwasanaeth’ sy'n dweud wrth y bobl beth i'w ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae modd darparu’r ddwy ddogfen yn Gymraeg. Darperir y gwasanaeth hwn yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn adlewyrchu'r gofynion rheoliadol yng Nghymru. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn siarad â'r bobl a'r staff i gael adborth ar berfformiad y gwasanaeth. Defnyddir gwybodaeth o wahanol ffynonellau hefyd, ynghyd â’r adborth hwn, i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Mae darparwr y gwasanaeth wedi ymrwymo i fuddsoddi'n ariannol yn yr amgylchedd – mae'r gwaith addurno wedi'i adnewyddu ac mae’r ystafelloedd ymolchi ar fin cael eu hailwampio. Maent yn nodi y byddant yn parhau i fuddsoddi, nid yn unig yn yr amgylchedd ond yn y staff a darpariaeth y gwasanaeth.

Mae rheolwr uchel ei barch, gwybodus a threfnus yn goruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd ac yn arddangos arweinyddiaeth dda. Mae’n dilyn systemau sefydliadol sy'n cefnogi adolygiadau ansawdd a gwelliant parhaus. Gwnaethom arsylwi ar gyfarfod pan mae penaethiaid adran yn dod at ei gilydd yn ddyddiol i rannu gwybodaeth; roedd cyfathrebu da fel bod yr holl staff yn ymwybodol o anghenion y bobl ac unrhyw newidiadau a nodwyd. Mae'r rheolwr a'r penaethiaid adran yn meithrin awyrgylch cynorthwyol ar gyfer yr holl gydweithwyr. Mae'r ethos gofalgar / cefnogol yn amlwg ar draws y gwasanaeth. Mae systemau cyfathrebu da i gefnogi teuluoedd y bobl sy'n byw yn y cartref. Gwnaethom siarad â thri aelod o'r teuluoedd a gadarnhaodd hyn.

Mae digon o staff cymwys i gefnogi canlyniadau da i'r bobl. Mae gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel, gyda gwiriadau'n cael eu cynnal i sicrhau y gallant weithio gyda phobl sy’n agored i niwed. Mae gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant sefydlu priodol a hyfforddiant pellach i gyflawni eu rôl. Mae staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion sy’n agored i niwed fel eu bod yn ymwybodol o ddangosyddion o gam-drin, ac yn gwybod sut i adrodd am bryderon. Mae ffocws hefyd ar hyfforddiant mewn perthynas â ‘Chymorth Cyntaf’ a ‘Chynorthwyo pobl i fwyta’ fel bod gweithwyr gofal yn ymwybodol o sut i atal digwyddiadau fel tagu, yn ogystal â chymryd camau priodol os oes angen. Cynhelir cyfarfodydd goruchwylio rhwng pob aelod o staff a’i reolwr llinell er mwyn adolygu perfformiad a chefnogi datblygiad. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth ar y trywydd iawn ar gyfer sicrhau y bydd pob gweithiwr gofal wedi’i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, erbyn mis Hydref eleni. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym fod y staff yn “*dîm da”* sy'n cydweithio'n dda. Mae'r tîm yn helpu i gyflenwi yn ystod cyfnodau o salwch ac absenoldeb fel mai prin y defnyddir gweithwyr asiantaeth, gan sicrhau parhad y gofal i'r bobl yn y cartref.

| Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes / Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 13/10/2022